**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

**Cofnodion ANGHYFYNGEDIG** y rhith-gyfarfod a gynhaliwyd am 5.30p.m. ddydd Iau 29 Medi 2022 drwy Zoom

Yn bresennol:
Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Justin Albert
Siwan Davies
Taya Gibbons
Yr Athro Medwin Hughes
Uzo Iwobi
Rowland Jones
Arwel Ellis Owen
Vanessa Liverpool
Dr Conny Matera Rogers
Victoria Provis
Dr Liz Siberry
Dr Kerry Tudor

Sylwedyddion o Gyngor PC:
Dr Stuart Robb
Nigel Roberts
Deris Williams

Yn bresennol hefyd:
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Andrew Cornish, Pennaeth Coleg Sir Gâr/Ceredigion
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Rebecca Doswell, (Pennaeth Polisi a Chynllunio)
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 22.67 | DERBYNIWYD ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Maria Steadman. | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| Ymddiheuriadau am absenoldeb | | |
| 22.68<br>Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o Fuddiannau fel y’u nodir yn adroddiad y Clerc (CO463).<br><br>Adroddodd y Clerc fod un Datganiad heb ei dderbyn eto ac y byddai’r gofrestr yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Brifysgol ar ôl ei dderbyn. | |
| 22.69<br>Adroddiadau Bwrdd Coleg Sir Gâr | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad ar gyfarfod Bwrdd Coleg Sir Gâr a gynhaliwyd 30 Mehefin 2022 (CO464).<br><br>Cyfeiriodd Pennaeth CSG at eitemau trafod allweddol, yn cynnwys gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a’r adroddiad ardderchog gan Estyn yn dilyn yr arolygiad diweddar. Cadarnhaodd y sefyllfa gyfredol o ran cyllideb y Coleg a chynlluniau i ddatblygu’r ystâd. | |
| 22.70<br>Adroddiad ariannol a llif arian parod | Mae’r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 22.71<br>Cynllunio olyniaeth yr Uwch Dîm | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad y CGAD a ddiweddarwyd (CO466) ar ddull y Brifysgol o Gynllunio Olyniaeth Arweinwyr.<br><br>Nododd aelodau bwysigrwydd datblygu gweithlu dwyieithog gan drafod y cyfleoedd oedd ar gael i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg ar bob lefel. Adroddodd y DIG fod Pwyllgor y Gymraeg wedi’i sefydlu a oedd yn canolbwyntio ar hyrwyddo’r Gymraeg ar draws y Brifysgol. Roedd strategaeth yn cael ei datblygu â ffocws ar ddatblygu ac uwchsgilio’r gweithlu gyda ffocws allweddol ar arweinwyr.<br><br>Cyfeiriodd aelodau at gyfnodau absenoldeb a’r angen i gyflymu gallu unigolion i gyflenwi mewn rolau arweinwyr. Cytunodd CGAD i gynnwys cyfeiriad at hyn yn yr adroddiad.<br><br>Nododd y Clerc fod cynllunio olyniaeth wedi’i gynnwys yng nghynllun gwaith y Cyngor i’w ystyried ymhellach yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2023. | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
| --- | --- | --- |
| 22.72<br>Cofnodion Cyngor y Brifysgol | CADARNHAODD y Cyngor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2022 fel cofnod cywir (CO447). | |
| 22.73<br>Siarter Myfyrwyr | CYMERADWYODD y Cyngor Siarter Myfyrwyr 2022/23 (CO468). | |
| 22.74<br>Cytundeb Perthynas Undeb y Myfyrwyr | Cymeradwyodd y Cyngor Gytundeb Perthynas y Drindod Dewi Sant / Undeb y Myfyrwyr 2022/23 (CO469). | |
| 22.75<br>Athro Emeritws | CYMERADWYODD y Cyngor enwebiad y Senedd i gyflwyno'r teitl Athro Emeritws i'r Athro Janet Burton (CO470). | |
| 22.76<br>Athrawon Ymarfer | CYMERADWYODD y Cyngor enwebiadau'r Senedd ar gyfer yr Athrawon Ymarfer Anrhydeddus canlynol fel y'u nodir yn CO471. | |
| 22.77<br>Cynllun Dirprwyo | CYMERADWYODD y Cyngor Gynllun Dirprwyo 2022/23, ond gofynnodd fod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn rhoi ystyriaeth bellach i'r geiriad yng nghyswllt camau gweithredu'r Cadeirydd (CO472). | |
| 22.78<br>Telerau ac amodau cyllid CCAUC | DERBYNIODD y Cyngor Delerau ac Amodau Cyllid CCAUC 2022/23 (CO473). | |
| 22.79<br>Datganiadau o fuddiannau | Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 22.80<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf a dyddiadau cyfarfodydd blwyddyn academaidd 2022/2023 | Nododd y Cyngor ddyddiad y cyfarfod nesaf a dyddiadau cyfarfodydd blwyddyn academaidd 2022/2023 fel a ganlyn:<br><br>Dydd Iau 24/11/2022<br>Dydd Iau 26/01/2023<br>Dydd Mercher/Dydd Iau 29-30/03/2023<br>Dydd Iau 06/07/2023<br><br>. | |